Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD
19 Medi, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Llywodraethu'r CBC: Is-bwyllgor Lles Economaidd Cylch Gorchwyl Diwygiedig |
| AWDUR: | Iwan Evans, Swyddog Monitro |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel rhan o'i waith gyda'i bartneriaid wedi cadarnhau'r Is-bwyllgor Lles Economaidd fel y corff penderfynu ar gyfer cefnogi cyflawni Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam a'i rôl fel Corff Atebol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig y newidiadau angenrheidiol i'w Gylch Gorchwyl presennol er mwyn ei alluogi i gyflawni'r swyddogaeth honno.

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y CBC yn cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig a'r dirprwyaethau (***Atodiad 1***) ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

## 3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Mae'r CBC wedi derbyn cyfres o adroddiadau yn ymwneud â'r strwythurau llywodraethu arfaethedig ynghylch ei rôl fel Corff Atebol. Yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2024 cymeradwyodd strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer darparu'r Parth Buddsoddi - gweler yr adroddiad. Fel rhan o'r model cyffredinol hwnnw, roedd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i gymryd cyfrifoldeb am reoli a chyflawni rôl y Corff Atebol o fewn y Parth Buddsoddi. Mae'r fframwaith hwn wedi'i gyflwyno i'r ddwy lywodraeth fel rhan o'r broses Porth.

3.2. Er mwyn gweithredu'r model hwnnw, mae angen diwygio Cylch Gorchwyl presennol yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i ymgorffori'r swyddogaethau a'r dirprwyaethau angenrheidiol i gyflawni'r rôl hon. Mae'r diwygiadau arfaethedig wedi'u nodi yn ***Atodiad 1***. Mae rhai rolau allweddol hefyd wedi'u cadw i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel y corff penderfynu cyffredinol ar gyfer y sefydliad. Maent yn cynnwys:

- Cyllideb CBC
- Strategaethau a Polisïau CBC
- Cyfansoddiad gan gynnwys RGC, Trefniadau Cyfreithiol a Chytundebol, Rheolau Sefydlog Staff a Chynllun Dirprwyo
- Cynllun Dirprwyo
- Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Llywodraethau
- CRA gyda Cynghorau Partner
- Sefydlu Is-bwyllgorau ac yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl a diwygiadau
- Penodi aelodaeth yr Is-bwyllgorau ac yn cyfethol aelodau gan gynnwys telerau cyfethol
- Yn gyfrifol am strwythurau staffio, Polisi Cyflog a dirprwyo cyffredinol

3.3. Mae'r rhain yn faterion sydd â goblygiadau corfforaethol i'r CBC a dylid eu cadw.

## 4. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

4.1. O dan y Rheoliadau Sefydlu, mae'r CBC wedi cael y swyddogaeth lles economaidd y gall wneud unrhyw beth y mae'n ystyried sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd ei ardal. Bydd maes o law yn ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraethau a chytundebau cyllido cytundebol. Mae angen i'r trefniadau llywodraethu fod ar waith i ragweld y rôl hon a'r ymrwymiadau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Diwygiedig yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Bu ymgynghori â mi ar y Cylch Gorchwyl diwygiedig a'r dirprwyaethau drafft a nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir.”